# Mesur Tai (Cymru) 2011

**2011 mccc 5**

## RHAN 1

ATAL DROS DRO YR HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG

## PENNOD 1

CYFARWYDDIADAU I ATAL DROS DRO YR HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG

### 1 Pŵer i wneud cais am gyfarwyddyd i atal dros dro yr hawl i brynu a hawliau cysylltiedig

(1) Caiff awdurdod tai lleol wneud cais i Weinidogion Cymru am gyfarwyddyd i atal dros dro yr hawl i brynu a hawliau cysylltiedig yn ei ardal am gyfnod o hyd at bum mlynedd—

- (a) os yw'r awdurdod, o fewn y cyfnod o chwe mis sy'n rhagflaenu'r cais, wedi cwblhau ymgynghoriad yn unol ag adran 2, a
- (b) os, yng ngoleuni'r ymgynghoriad hwnnw, ac ar ôl ystyried unrhyw wybodaeth berthnasol arall, daw'r awdurdod i'r casgliad bod y cyflwr a ddisgrifir yn is-adran (2) yn bodoli.

(2) Y cyflwr (y cyfeirir ato yn y Rhan hon fel y “cyflwr o bwysau oherwydd prinder tai”) yw—

- (a) o fewn ardal yr awdurdod tai lleol, bod y galw am dai cymdeithasol yn sylweddol uwch neu'n debygol o fod yn sylweddol uwch na'r cyflenwad o dai cymdeithasol, a
- (b) bod yr anghydbwysedd hwnnw rhwng y galw a'r cyflenwad yn debygol o gynyddu o ganlyniad i arfer yr hawl i brynu a hawliau cysylltiedig.

(3) At ddibenion y Rhan hon, mae'r canlynol yn hawliau sy'n gysylltiedig â'r hawl i brynu—

- (a) yr hawl i brynu fel y'i hestynnwyd o dan adran 171 o Ddeddf Tai 1985;

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(b) yr hawl i brynu a gadwyd o dan adran 171A o Ddeddf Tai 1985;
(c) yr hawl i gaffael o dan adran 16 o Ddeddf Tai 1996;
(d) yr hawl i gaffael fel y'i hestynnwyd o dan adran 16A o Ddeddf Tai 1996.

(4) Caiff awdurdod tai lleol ddod i'r casgliad fod paragraff (a) o is-adran (2) wedi ei fodloni—
(a) mewn cysylltiad â'r holl dai cymdeithasol yn ei ardal;
(b) mewn cysylltiad â'r holl dai cymdeithasol mewn rhan neu rannau penodol o'i ardal;
(c) mewn cysylltiad â mathau penodol o dai cymdeithasol (p'un ai drwy ei ardal gyfan neu mewn rhan neu rannau penodol o'i ardal).

(5) At ddibenion y Rhan hon, caniateir dynodi math o dai cymdeithasol drwy gyfeirio at unrhyw un neu ragor o'r canlynol, neu at unrhyw gyfuniad ohonynt—
(a) anghenion arbennig tenantiaid;
(b) disgrifiad o dŷ annedd;
(c) math o ddarparydd tai cymdeithasol (a allai gynnwys darparydd penodol).